

Ymgynghoriad ar Ddangosyddion arfaethedig ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014

Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (os yn berthnasol): Undeb Cenedlaethol
Athrawon Cymru (UCAC)

e-bost/rhif ffôn:

Rebecca@athrawon.com; 01970 639950

Cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Mae'n debygol y caiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyhoeddi ar y
we, neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros
yn anhysbys, ticiwch yma:



Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **27 Chwefror 2014** at:

Tîm Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu

e-bost: ystadegau.cynhwysiant@cymru.gsi.gov.uk

Gwybodaeth bellach

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar-lein ar gael yn
www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Bydd Gweminar Ymgynghori GoTo (seminar ymgynghori ar-lein) yn cael ei chynnal
ar 16 Rhagfyr yn Saesneg ac 17 Rhagfyr yn Gymraeg. Bydd hwn yn cynnwys
cyflwyniad ar yr argymhellion a chyfle i holi cwestiynau. Am fwy o fanylion cofrestru
ewch i:

<http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/consultation-webinar/?lang=cy>.

Nid oes rhaid i ymatebwyr ateb bob cwestiwn

Adran 5 – Cynigion ar gyfer meysydd a dangosyddion

Incwm

Cwestiwn 1 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Cyflogaeth

Cwestiwn 2 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Iechyd

Cwestiwn 3 – Yn amodol ar ansawdd data a datblygu data digonol, ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gynnwys dangosydd ar achosion o glefydau cronig lle cafwyd diagnosis?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Cwestiwn 4 – Yn amodol ar ymchwil bellach, ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynnwys dangosydd ar “y gyfran o ofalwyr di-dâl”?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Cwestiwn 5 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Addysg

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i hepgor y Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 3?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Cytunwn â'r cynnig.

Rydym o'r farn ei bod hi'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n parhau i gasglu data diwedd Cyfnod Allweddol 3, ond cytunwn â'r ddogfen ymgynghorol fod dangosydd Cyfnod Allweddol 2 a dangosyddion Cyfnod Allweddol 4 yn ddigonol at ddibenion y Mynegai Amddifadedd Lluosog.

Cwestiwn 7 – Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer dau ddangosydd cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Ydyn, rydym yn cytuno.

Mae cynnwys y Sgôr Pwyntiau fel dangosydd yn bwysig am ei fod yn rhoi darlun o gyrhaeddiad ar bob lefel. Cytunwn y gall y Sgôr Pwyntiau wedi'i gapio fod yn decach ac yn fwy cyson na'r Sgôr Pwyntiau ehangach, gan ei fod yn trin bob ysgol a disgybl yn yr un modd, ni waeth faint o arholiadau y maent yn eu sefyll.

Cytunwn yn ogystal â chynnwys y Trothwy Lefel 2+, gan ei fod yn adlewyrchu cyrhaeddiad ar y lefelau uwch, yn ogystal â sgiliau sylfaenol ym meysydd llythrennedd a rhifedd. Mae newidiadau ar y gweill i'r mesurau hyn o ran y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n casglu/defnyddio'r data (er mwyn osgoi gorbwyslais ar y ffin rhwng graddau D ac C), ac mae'n siŵr y bydd angen cadw golwg ar y sefyllfa at y dyfodol. Ond ni fydd y newidiadau yn eu lle'n ddigon buan i amharu ar WIMD 2014 na 2015.

Cwestiwn 8 – Beth yw'ch barn chi ar newid y dangosyddion Absenoldebau Cyffredinol i un sy'n seiliedig ar absenoldebau ailadroddus?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Cytunwn fod mesur absenoldebau ailadroddus yn fwy synhwyrol a gwerthfawr nag absenoldebau cyffredinol, os yw'n ymarferol ei gasglu. Yn ogystal, cytunwn yn llwyr mai 15% yw'r trothwy fwyaf priodol at ddibenion y Mynegai Amddifadedd, a bod 20% yn rhy uchel i fod yn ystyrlon.

Cwestiwn 9 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Rydym o'r farn bod dangosydd Cyfnod Sylfaen/Blynyddoedd Cynnar yn eithriadol o bwysig o safbwynt mesur amddifadedd. Deallwn, fodd bynnag, yr anawsterau ar hyn o bryd ynghylch ystadegau addas, gan nad oes cysondeb wedi bod dros ddigon o flynyddoedd eto. Mae prawf gwaelodlin newydd ar y gweill, ac mae'n debyg y bydd hwnnw'n fesur gwerthfawr unwaith y bydd wedi ymsefydlu'n drwyadl, ac yn yr un modd, os na fydd newidiadau i'r asesiad diwedd cyfnod (ac mi allai fod...) mi ddaw hwnnw'n adnodd pwysig gydag amser. Cytunwn fod angen cadw llygad ar y sefyllfa ar gyfer unrhyw ddiwygiadau pellach i'r Mynegai yn y dyfodol.

Mae'r sefyllfa parthed y profion cenedlaethol (darllen a rhifedd) yn debyg – rhy gynnar i fod yn ddefnyddiol ar hyn o bryd, ond â'r potensial i fod yn ddefnyddiol at y dyfodol.

Mynediad i Wasanaethau

Cwestiwn 10 - Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau, yr ychwanegiadau, a'r eithriadau o'r rhestr gwasanaethau arfaethedig ar gyfer Malc 2014?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Cwestiwn 11 – Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gyfuno trafndiaeth gyhoeddus a phreifat?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Cwestiwn 12 – Beth yw'ch barn chi ar y dull cyfrifo amseroedd teithio dewisol?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Cwestiwn 13 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Diogelwch Cymunedol

Cwestiwn 14 - Ydych chi'n cytuno â'r dull a ffefrir o gynnwys achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol (os yw'r data'n ddigon cadarn) neu'r dewis arall sef defnyddio data lleoliad troseddwr (fel ar gyfer Malc blaenorol)?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Cwestiwn 15 - Beth yw'ch barn chi ar ddefnyddio'r holl ddamweiniau ffyrdd fel dangosydd newydd, gan gymryd nad yw nifer y cerddwyr a'r beicwyr a gafodd eu hanafu yn ddigon cadarn ar gyfer Malc?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Cwestiwn 16 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig/a wrthodwyd neu unrhyw sylwadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Amgylchedd Ffisegol

Cwestiwn 17 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Tai

Cwestiwn 18 – A yw'n briodol mai dim ond un dangosydd (gorlenwi) sydd gan y maes hwn os mai dyna'r oll sydd ar gael?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Cwestiwn 19 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Adran 6 – Mynegai Plant

Cwestiwn 20 – Disgrifiwch eich defnydd o'r Mynegai Plant ar ei ffurf bresennol.

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Cwestiwn 21 - Yn y tymor hirach, a ddylid rhoi'r flaenoriaeth i ddadansoddi data sylfaenol Malc (gan gynnwys yn ôl oedran lle bo modd) yn hytrach na chynhyrchu'r Mynegai Plant ar ei ffurf bresennol?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda

Adran 7 – Camau nesaf

Cwestiwn 22 - Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar gynigion ar gyfer Malc 2014 (na chyfeiriwyd atynt eisoes) neu waith ar Malc yn y dyfodol?

Rhowch resymau dros eich ymateb a sylwadau os gwelwch yn dda